# YMWELIADAU SAFLE

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ken Taylor (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Kenneth Hughes<br>John Ifan Jones, Dafydd Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLJ)<br>Swyddog Cynllunio (OHR) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Jeff M Evans, T Ll Hughes MBE, Robert Ll. Jones,<br>Jackie Lewis a Robin Williams |

---

**1 OP/2025/3 - CAIS AMLINELLOL GYDA PHOB MATER WEDI'I GADW'N ÔL I GODI ANNEDD AR DIR GER TY'N LLAIN, MALLTRAETH.**

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio y cais o fynedfa'r safle. Eglurwyd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod safle'r cais o fewn ffin datblygu Malltraeth ac nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law. Yr unig wrthwynebiad oedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru gan fod mwyafrif y safle wedi'i leoli o fewn Parth Llifogydd C2. Eglurodd y Swyddog Cynllunio fod y cais wedi'i asesu yn erbyn y Nodyn Cyngor Technegol blaenorol sef TAN 15 gan fod y cais wedi'i gyflwyno cyn i'r Nodyn Cyngor Technegol newydd ddod i rym.

**2 FPL/2025/97 - CAIS LLAWN I DDYMCHWEL YR ANNEDD BRESENNOL A CHODI ANNEDD YN EI LLE YN PONTA DELGADA, YSTÂD RAVENS POINT, BAE TREARDDUR.**

Cyflwynwyd y cais gan y Swyddog Cynllunio o'r fynedfa bresennol. Cerddodd Aelodau'r Pwyllgor tuag at gefn yr eiddo er mwyn dod yn gyfarwydd â'r safle a'i leoliad.

**COUNCILLOR KEN TAYLOR**
**CHAIR**